**Rhif: WG45087**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Newidiadau i'r gofynion ar ddarparwyr rhai gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir

## Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

- Dirymu diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020; ac
- Egluro'r disgrifiad o adeiladau 'Categori C' dan reoliad 49

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 18 Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd /
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gynnig i ddirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Maent yn ymwneud â gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, a gwasanaethau cymorth cartref i oedolion.

Mae'n gofyn am eich barn hefyd ar ddiwygiad arfaethedig i reoliad 49 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 i egluro'r disgrifiad o adeiladau 'Categori C', a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwasanaethau hynny sy'n seiliedig ar lety y mae gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adeiladau newydd yn berthnasol iddynt.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i dychwelyd **erbyn hanner nos ar 18 Gorffennaf 2022**. Dylid anfon yr ymateb at:

Tîm Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, gallwch lenwi eich ffurflen a'i dychwelyd atom, **erbyn hanner nos ar 18 Gorffennaf 2022**, drwy e-bost at: RISCAct2016@llyw.cymru neu RISCAct2016@gov.wales.

Mae ffurflen ar-lein ar gael hefyd yn: https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gofynion-ar-ddarparwyr-rhai-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-rheoleiddiedig

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@llyw.cymru neu RISCAct2016@gov.wales.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: https://gov.wales/changes-requirements-providers-certain-regulated-social-care-services

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House, Water Lane
Wilmslow, Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 6

Cynnig 1: dirymu diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 ........ 7

Cynnig 2: egluro'r disgrifiad o adeiladau Categori C yn rheoliad 49 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ........ 14

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ........ 16

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ddau gynnig i wneud diwygiadau pellach i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017[1] ('Rheoliadau 2017').

Yn gyntaf, dirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed i ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion, drwy Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020[2]. Eu nod oedd cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol brys i oedolion, lle'r oedd angen hyn o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a symleiddio'r gwiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr preswyl a gofal cartref newydd, mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn anodd cael gafael ar y wybodaeth hon.

Yn ail, egluro'r disgrifiad o adeiladau 'Categori C' dan reoliad 49 Rheoliadau 2017, er mwyn sicrhau bod gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adeiladau newydd yn gymwys boed yr adeilad wedi'i gynnwys yng nghofrestriad darparwr blaenorol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[3] neu a oedd yn adeilad neu'n sefydliad perthnasol lle'r oedd unigolyn wedi'i gofrestru dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath yn flaenorol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am hanner nos ar 18 Gorffennaf 2022.

---

[1] O.S. 2017/1264 (Cy. 295) Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017
[2] O.S. 2020/570 (Cy. 131) Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020
[3] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Cynnig 1: dirymu diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir

1. Yn ystod gwanwyn 2020, gan weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC'), nododd Llywodraeth Cymru nifer fach o newidiadau i reoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[3] ('Deddf 2016') y gellid eu gwneud i gefnogi darparwyr gwasanaethau a reoleiddir wrth ymateb i bandemig Covid-19 a rheoli ei effaith. Roedd y rhain yn ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion.

2. Ar 3 Ebrill 2020, ysgrifennodd swyddogion at aelodau Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol Covid-19 – gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol; darparwyr gofal cymdeithasol; y sector gwirfoddol; darparwyr tai; Gofal Cymdeithasol Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac AGC – yn ogystal ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol; a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, i ofyn am eu barn ar frys ar y newidiadau arfaethedig.

3. Erbyn 17 Ebrill 2020, derbyniwyd 11 o ymatebion ac fe'u hystyriwyd wrth baratoi Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020[2] ('Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws’). Daethant i rym ar 5 Mehefin 2020. Yn unol ag adran 27(5) Deddf 2016, gosodwyd datganiad ymgynghori[4] gerbron y Senedd. Cyhoeddwyd canllawiau[5] cysylltiedig i gynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac eraill i ddehongli'r newidiadau; esbonio sut y gallent weithio'n ymarferol; ac atgyfnerthu'r ffaith bod yr holl ofynion eraill yn parhau i fod mewn grym.

### Disgrifiad o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020

4. Mae Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017[1] ('Rheoliadau 2017') mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, drwy greu eithriadau cyfyngedig nad ydynt i'w trin fel gwasanaeth a reoleiddir. Yn ail, drwy lacio'r gofynion ar rai darparwyr, o dan amgylchiadau penodedig, mewn perthynas â gwybodaeth a

---

[4] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Coronafeirws) 2020: datganiad ymgynghori
[5] Pandemig COVID-19: canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion

dogfennau sydd i'w cadw am bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac am letya oedolion mewn ystafelloedd a rennir.

*Eithriadau a grëwyd gan ddefnyddio adran 2(3) Deddf 2016*

5. **Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal) yn diwygio Rheoliad 2 o Reoliadau 2017** i'r perwyl nad yw darparu llety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal yn cael eu darparu i oedolion a bod angen y gwasanaethau *o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws*, i'w drin fel gwasanaeth cartref gofal at ddibenion Deddf 2016. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol mae'r eithriad hwn yn berthnasol:

   - os yw'r gwasanaeth i'w ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu
   - mae'r gwasanaeth i'w gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac fe'i darperir naill ai:
     - gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu
     - gan ddarparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal.
   - ac mae'r unigolyn sy'n bwriadu darparu'r gwasanaeth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw (yn ymarferol, AGC, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu orfodol).

6. **Yn yr un modd, mae Rheoliad 5 o Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws (ac eithrio cwmpas gwasanaethau cymorth cartref) yn diwygio Rheoliad 3 o Reoliadau 2017** i'r perwyl nad yw darparu gofal a chymorth i oedolion, *lle mae angen y gofal a'r cymorth o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws,* i'w drin fel gwasanaeth cymorth cartref at ddibenion Deddf 2016. Unwaith eto, dim ond yn yr amgylchiadau canlynol mae'r eithriad hwn yn berthnasol:

   - os yw'r gwasanaeth i'w ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu
   - mae'r gwasanaeth i'w gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac fe'i darperir naill ai:
     - gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref i oedolion, neu
     - gan ddarparwyr asiantaethau gofal cartref yn Lloegr sydd eisoes wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

- ac mae'r unigolyn sy'n bwriadu darparu'r gwasanaeth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw (yn ymarferol, AGC, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu orfodol).

7. Bwriad yr eithriadau hyn, yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl yr ymgynghorwyd â nhw yn eu hystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur ar yr adeg y'u gwnaed, oedd symleiddio'r broses o sefydlu'r gwasanaethau penodol hyn - i fod ar gael pan oedd eu hangen fwyaf, *o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws*: ychwanegu capasiti yn y system a lleihau'r pwysau a ragwelwyd ar wasanaethau ysbytai, cartrefi gofal a chymorth cartref - gan sicrhau'r un pryd bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith. Dyma oedd y mesurau diogelu hyn: sicrhau mai dim ond darparwyr a oedd eisoes yn destun rheoleiddio ac arolygu a fyddai'n gweithredu gwasanaethau; byddai awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol yn eu goruchwylio; ac y byddai darpar ddarparwyr yn rhoi digon o wybodaeth i AGC, ymlaen llaw, er mwyn rhoi sicrwydd am eu prosesau llywodraethu, eu systemau a'u dealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth i'w darparu.

8. Pe bai AGC o'r farn nad oedd gwasanaeth arfaethedig yn dod o fewn un o'r eithriadau ac felly y byddai angen ei gofrestru, byddai'n hysbysu'r darparwr arfaethedig. Pe bai'r darparwr yn parhau i weithredu'r gwasanaeth, byddai AGC wedyn yn ystyried camau gorfodi. Mae gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru yn drosedd o dan adran 5 o Ddeddf 2016, a allai arwain at ddirwy neu garchar am hyd at ddwy flynedd.

*Diwygiadau i ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o dan adran 27(1) o Ddeddf 2016*

9. **Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws (addasrwydd staff) yn diwygio Rheoliad 35 o Reoliadau 2017** i'r perwyl pan fo darparwr gwasanaethau’n darparu gwasanaeth gofal cartref, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaeth cymorth cartref i oedolion, mae'r gofyniad yn 35(2)(d) i unigolyn – darpar gyflogai – ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth gyflawn a boddhaol am faterion penodol i'w drin fel pe bai wedi ei fodloni os:

   - na all yr unigolyn ddarparu'n rhesymol wybodaeth na dogfennaeth gyflawn a boddhaol *o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws*; a

   - os yw'r unigolyn yn darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth gyflawn a boddhaol ag sy'n rhesymol ymarferol; ac

   - mae'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarperir ar gael yn y gwasanaeth i'w harchwilio gan AGC.

   Y materion penodol[6] hynny yw:

[6] Mae'r rhain yn faterion a bennir ym [mharagraffau 4, 6, 8 a 9 o Ran 1 o Atodlen 1 Reoliadau 2017:]() O.S. 2017/1264 (Cy. 295)

- dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os oes un;

- tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol;

- hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth; a

- thystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr i ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

10. Bwriadwyd i hyn fod yn ddull pragmatig a synhwyrol o gyflymu'r broses o recriwtio staff mewn amgylchiadau eithriadol, gan gydnabod efallai na fyddai'n rhesymol ymarferol cael yr holl wybodaeth sy'n ofynnol, yn y ffurf benodedig, mewn amodau pandemig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw staff newydd barhau i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth sydd *yn* rhesymol ymarferol ac mae'n rhaid i hyn fod ar gael (ar ba ffurf bynnag) yn y gwasanaeth i'w archwilio gan AGC.

11. Mae canllawiau statudol a gyhoeddir i gyd-fynd â Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws[7] yn nodi'n glir bod yn rhaid i ddarparwyr fodloni eu hunain o hyd bod yr unigolyn y maen nhw'n bwriadu ei gyflogi'n addas ac yn briodol ar gyfer y rôl; dylid cadw cofnodion i ddangos eu bod wedi gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i gael yr wybodaeth sy'n ofynnol (er enghraifft, sicrhau un geirda ysgrifenedig a chadw cofnod ysgrifenedig o sgwrs ffôn gyda chyflogwr blaenorol arall); a'u bod wedi gweithredu'n briodol ar wybodaeth y maen nhw'n ei chael, waeth pa mor hwyr y gallai'r wybodaeth fod. Mae'n ofynnol hefyd i ddarparwyr gynnal asesiadau risg priodol a rhoi mesurau ar waith i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd, cyn belled ag y bo modd; gyda diogelwch a lles unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn flaenoriaeth.

12. **Mae Rheoliad 7 o Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws (ystafelloedd a rennir) yn diwygio Rheoliad 45 o Reoliadau 2017** i'r perwyl y caiff darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal wneud cais i AGC i amrywio eu cofrestriad er mwyn mynd 15% yn uwch na chyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth mewn ystafelloedd a rennir, lle mae angen darparu llety *o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws*.

13. Bwriad hyn oedd sicrhau y gellir, dros dro, ehangu capasiti mewn cartrefi gofal i oedolion, lle bo angen o ganlyniad i bandemig Covid-19, drwy greu ystafelloedd gwely newydd a rennir drwy newid defnydd ystafelloedd gwag cyfredol neu ofod arall nas defnyddir (ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion safonol). Mae'n rhaid i unrhyw ddarparwyr sy'n bwriadu gwneud hynny wneud cais i AGC am amrywiad i uchafswm niferoedd, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan reoleiddiwr y gwasanaeth fesul achos, gyda budd gorau'r holl breswylwyr mewn golwg. Mae'r canllawiau statudol presennol ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn nodi[7], pan fo

[7] Llywodraeth Cymru: Canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol

rhannu ystafell yn cael ei ystyried, dylid cael trafodaeth â'r unigolion dan sylw neu eu cynrychiolwyr, a dylai'r darparwr ddogfennu'r penderfyniad a wneir.

## Defnyddio'r diwygiadau

14. Fel y nodwyd uchod, mae'r holl ddiwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn diogelu neu'n cyd-fynd â gofynion presennol er mwyn sicrhau rhywfaint o oruchwyliaeth gan Weinidogion Cymru (AGC yn ymarferol), fel rheoleiddiwr y gwasanaeth. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n bwriadu darparu gwasanaeth a allai fod wedi'i eithrio, yn sgil Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws, rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref, hysbysu AGC yn gyntaf, gan ddefnyddio ffurflen benodedig. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu gymorth cartref i oedolion, sicrhau bod yr wybodaeth neu'r ddogfennaeth y maen nhw wedi'i chael mewn perthynas â'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar gael i'w harchwilio. Mae'n rhaid i unrhyw gais i amrywio uchafswm capasiti cartref gofal i oedolion gael ei gymeradwyo gan AGC.

15. Ers i Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws ddod i rym ar 5 Mehefin 2020, mae AGC yn cynghori fel a ganlyn:

- gwnaed 12 hysbysiad o'r bwriad i ddarparu llety a nyrsio neu ofal i oedolion, yn ymwneud â Covid-19. O'r rhain, ni wnaeth rhai fynd ymlaen i ddarparu'r gwasanaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth yn awdurdodau lleol, gan ddarparu gwasanaeth i nifer fach o bobl ar y tro, yn aml fel lleoliad cam-i-lawr/ail-alluogi ar ôl rhyddhau o'r ysbyty. Dim ond un gwasanaeth sy'n parhau i fod yn weithredol ac mae'r darparwr wedi nodi ei fwriad i gofrestru hyn fel gwasanaeth cartref gofal.

- ni wnaed unrhyw hysbysiadau o'r bwriad i ddarparu gofal a chymorth (gofal cartref) i oedolion, yn ymwneud yn benodol â Covid-19.

- dim ond un cais perthnasol a gymeradwywyd i amrywio uchafswm capasiti gwasanaeth cartref gofal.

16. Nid yw gwaith arolygu diweddar wedi tynnu sylw at unrhyw ddibyniaeth eang ar y newidiadau i'r gofynion i sicrhau bod gwybodaeth a dogfennaeth ar gael mewn perthynas â'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae rhai darparwyr yn adrodd am anawsterau wrth recriwtio, yn gyffredinol, ond nid wrth gynnal a dogfennu gwiriadau cyn cyflogi.

## Sail resymegol dros newid

17. Fel y'i cyflëir drwy *Gyda'n Gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid19 - Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig*[8] a'r Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol[9], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, mae sefyllfa Covid-19 yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers y 'sefyllfa frys' a welwyd ar ddechrau'r pandemig, pan wnaed Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws. Lefelau brechu uchel; llai o bobl yn mynd i'r ysbyty a llai o farwolaethau; ac roedd gwell mesurau atal a rheoli heintiau'n galluogi'r rhan fwyaf o amddiffyniadau/cyfyngiadau cyfreithiol yng Nghymru i gael eu codi ddiwedd mis Mawrth 2022, gyda'r ffocws bellach yn symud tuag at fyw ochr yn ochr â'r coronafeirws, gyda chanllawiau priodol a mesurau diogelu ymarferol effeithiol ar waith.

18. Daeth y ddarpariaeth yn Neddf Coronafeirws 2020 i sicrhau y gellid cofrestru gweithwyr cymdeithasol dros dro mewn sefyllfaoedd brys[10] a phwerau – heb eu defnyddio – i ddatgymhwyso neu addasu gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[11] i ben ddiwedd mis Mawrth 2022 hefyd.

19. O ystyried y sefyllfa bresennol hon, a gwybodaeth gan AGC am y defnydd cyfyngedig o'r hawddfreintiau, ni ystyrir bellach ei bod yn gymesur i'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws – a fwriadwyd i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol brys i oedolion, oedd ei hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws – barhau yn eu lle. Rhagwelwyd y byddai eu hangen am ddim mwy na 9 mis.

20. Er y disgwylir i'r coronafeirws ddod yn endemig yn y tymor hir, rydym yn cydnabod ei fod yn parhau i fod yn gyffredin ar hyn o bryd ac yn fygythiad difrifol, yn enwedig os bydd amrywiolion newydd, mwy niweidiol yn dod i'r amlwg neu wrth i imiwnedd wanhau. Pe bai hyn yn digwydd a'n bod yn dychwelyd at amddiffyniadau iechyd y cyhoedd a mesurau lefel rhybudd uwch, byddwn yn ystyried – mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid – a oes angen unrhyw ymateb deddfwriaethol pellach i gefnogi darparwyr gwasanaethau a reoleiddir, er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n ddiogel.

## Cynnig 1

21. **Cynigir bod y diwygiadau a wnaed i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael eu**

[8] Llywodraeth Cymru: Covid-19: Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig
[9] Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
[10] Deddf y Coronafeirws 2020 - Atodlen 5
[11] Deddf y Coronafeirws 2020 - Adran 33

**dirymu, gyda'r eithriadau a'r newidiadau a wnaed gan y diwygiadau hynny yn dod i ben ar 31 Hydref 2022.**

22. Bydd hyn yn gofyn am gyfres arall o reoliadau i ddileu'r diwygiadau a wnaed. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn – eich ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn y ffurflen isod – rydym yn bwriadu paratoi'r rheoliadau hynny i'w gosod gerbron y Senedd ym mis Medi 2022, gyda dadl yn dilyn ym mis Hydref 2022 a'r rheoliadau'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2022.

23. **O 1 Tachwedd 2022 dyma fydd effeithiau'r cam uchod**:

- Ni fydd eithriad rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal i'r rhai sy'n darparu llety ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion, lle bo angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

- Ni fydd eithriad rhag cofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref i'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth, i oedolion, lle bo angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

- Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion, gael yr holl wybodaeth a'r holl ddogfennaeth sy'n ofynnol yn Atodlen 1 i Reoliadau 2017 a sicrhau eu bod ar gael yn y gwasanaeth.

- Ni fydd darparwyr gwasanaethau'n gallu gwneud cais i AGC i fynd 15% uwchlaw cyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth mewn ystafelloedd a rennir.

24. Pan ddaeth Rheoliadau Diwygio'r Coronafeirws i rym ym mis Mehefin 2020 a'r canllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd, dywedwyd wrth ddarparwyr gwasanaethau y byddai AGC, ar ran Gweinidogion Cymru, yn hysbysu'r holl ddarparwyr perthnasol ynghylch pryd y byddai'r newidiadau'n cael eu dirymu. Bydd pob darparwr gwasanaethau Rheoleiddiedig yn cael ei hysbysu o'n bwriad i ddirymu'r newidiadau hyn a'u gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd AGC yn sicrhau bod y darparwyr hynny yr effeithir arnynt gan y broses o ddirymu'r newidiadau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheoliadau dilynol a wneir.

## Cynnig 2: egluro'r disgrifiad o adeiladau 'Categori C' yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

## Cefndir

25. Mae Rhan 13 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017[1] ('Rheoliadau 2017') yn nodi gofynion ychwanegol ynghylch safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer gwasanaethau newydd sy'n seiliedig ar lety (gan gynnwys adeiladau cartrefi gofal). Mae'r safonau hyn yn cynnwys isafswm o ran maint ystafelloedd, isafswm o ran maint mannau cymunedol a chyfleusterau mewn ystafelloedd ymolchi en-suite. Mae rheoliad 49 – a ddiwygiwyd yn 2019 i egluro 'Categori B', fel y nodir isod – yn pennu’r tri chategori o "adeiladau newydd" y mae'r safonau ychwanegol yn berthnasol iddynt:

- **Categori A**: Mae'r safle a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth yn cynnwys adeilad newydd neu adeilad sy'n bodoli eisoes sydd wedi'i addasu at ddibenion darparu'r gwasanaeth, ac, yn y naill achos na'r llall, nid yw'r adeilad wedi'i ddefnyddio'n flaenorol at ddibenion darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety, *h.y. adeilad newydd neu safle wedi'i addasu*

- **Categori B**: Mae'r safle'n cynnwys [adeilad neu adeiladau y mae estyniad yn cael ei ychwanegu ato/atynt ac mae’r estyniad] yn cael ei ddefnyddio at ddibenion darparu'r gwasanaeth mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, *h.y. estyniad i adeiladau presennol*

- **Categori C**: Mae'r safle'n cynnwys adeilad a oedd yn wag yn union cyn i'r darparwr gwasanaeth gofrestru ond a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad darparwr gwasanaeth arall, *h.y. pan fo safleoedd a arferai gael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety (gan ddarparwr arall) wedi'u prynu i'w gweithredu gan y darparwr gwasanaeth.*

26. Diben Rhan 13 o Reoliadau 2017 oedd sicrhau gwelliant yn yr ystad adeiledig dros amser ond heb ansefydlogi'r farchnad. Felly, nid yw'r gofynion ychwanegol ar gyfer safleoedd newydd yn berthnasol i wasanaethau sydd eisoes wedi'u meddiannu nac mewn sefyllfaoedd lle mae darparwyr gwasanaethau wedi gadael y safle dros dro at ddibenion adnewyddu.

27. Bwriadwyd i'r categorïau o adeiladau newydd a nodir yn rheoliad 49 gwmpasu'r holl fathau o adeiladau y gellid ei ddefnyddio o bosibl i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety ac y byddai'r safonau ychwanegol yn berthnasol iddynt. ʿBwriad 'Categori C' oedd cofnodi adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth a reoleiddir yn union cyn cofrestriad darparwr gwasanaeth dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 [3] ('Deddf

2016'), ond a ddefnyddiwyd yn flaenorol at y diben hwnnw rywbryd yn y gorffennol, gan ddarparwr arall. Y bwriad oedd y dylai hyn fod yn gymwys p'un ai a oedd y safle wedi'i gynnwys yng nghofrestriad darparwr blaenorol dan Ddeddf 2016 neu a oedd yn adeilad neu'n sefydliad perthnasol yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru ar ei gyfer dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn flaenorol yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath.

28. Fe'n cynghorwyd bod y geiriad a ddefnyddiwyd yn rheoliad 49 i ddisgrifio 'Categori C' yn cael yr effaith anfwriadol o eithrio adeiladau sydd heb eu meddiannu ar adeg cofrestru, os yw eu cyfnod defnyddio cynharach yn rhagddyddio cychwyn darpariaethau perthnasol Deddf 2016 ym mis Ebrill 2018.

29. Y canlyniad yw nad oes yn rhaid i unrhyw gartrefi gofal segur, er enghraifft yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru ar eu cyfer dan Ddeddf Safonau Gofal 2000[12] (neu ddeddfwriaeth gynharach a ddisodlwyd gan y Ddeddf honno) ond nad ydynt wedi'u cynnwys hyd yma o fewn cofrestriad darparwr gwasanaeth dan Ddeddf 2016, gydymffurfio â'r gofynion adeiladau ychwanegol yn Rhan 13 o Reoliadau 2017. Mae hyn yn ganlyniad anfwriadol i'r geiriad presennol, sy'n tanseilio bwriad y polisi o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser.

## Sail resymegol dros newid

30. Rydym yn bwriadu manteisio ar gyfle'r ymgynghoriad hwn (a gwneud rheoliadau, gan ddefnyddio pwerau dan adran 27(1) o Ddeddf 2016) i gynnwys y cynnig ychwanegol hwn: y dylid diwygio 'Categori C' i gau'r bwlch anfwriadol hwn. Bydd hyn yn sicrhau eglurder a sicrwydd yn rheoliad 49 o Reoliadau 2017, felly mae'r sefyllfa'n cael ei chyfleu y tu hwnt i amheuaeth: bwriedir i adeiladau 'Categori C' gynnwys adeiladau a sefydliadau perthnasol yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru ar eu cyfer dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn flaenorol yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol dros wasanaethau sy’n seiliedig ar lety, gan felly sicrhau bwriad gwreiddiol y polisi o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser, heb ansefydlogi'r farchnad.

## Cynnig 2

31. Byddwn yn diwygio'r disgrifiad o adeilad 'Categori C' sydd wedi'i gynnwys yn rheoliad 49 o Reoliadau 2017 ar hyn o bryd.

32. Bydd y diwygiad yn rhoi effaith i fwriad gwreiddiol y polisi, ac i gyfleu y tu hwnt i amheuaeth, y bwriedir i adeiladau 'Categori C' gynnwys safleoedd a sefydliadau perthnasol yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru ar eu cyfer dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn flaenorol yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol dros wasanaethau sy’n seiliedig ar lety.

[12] Deddf Safonau Gofal 2000

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn

Eich cyfeiriad:

**Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:** ☐

**Cynnig 1: dirymu diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020**

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 4 (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

**Cytuno** ☐

**Tueddu i gytuno** ☐

**Tueddu i anghytuno** ☐

**Anghytuno** ☐

Os ydych yn anghytuno, nodwch eich rhesymau pam na ddylid ei ddirymu ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 5 (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cymorth gofal cartref) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

**Cytuno** ☐

**Tueddu i gytuno** ☐

**Tueddu i anghytuno** ☐

**Anghytuno** ☐

Os ydych yn anghytuno, nodwch eich rhesymau pam na ddylid ei ddirymu ar hyn o bryd.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 6 (addasrwydd staff) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

(Mae rheoliad 6 yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau cartref gofal, yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion)

**Cytuno** ☐

**Tueddu i gytuno** ☐

**Tueddu i anghytuno** ☐

**Anghytuno** ☐

Os ydych yn anghytuno, nodwch eich rhesymau pam na ddylid ei ddirymu ar hyn o bryd.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 7 (ystafelloedd a rennir) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

(Mae rheoliad 7 yn gymwys i ddarparu llety i oedolion, mewn ystafelloedd a rennir)

**Cytuno** ☐

**Tueddu i gytuno** ☐

**Tueddu i anghytuno** ☐

**Anghytuno** ☐

Os ydych yn anghytuno, nodwch eich rhesymau pam na ddylid ei ddirymu ar hyn o bryd.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5:** A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol a/neu oblygiadau ariannol i ddirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020?

**Cytuno** ☐

**Tueddu i gytuno** ☐

**Tueddu i anghytuno** ☐

**Anghytuno** ☐

Os felly, esboniwch y rhain isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6:** A ydych yn credu y bydd dirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?

Dyma’r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

i. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ac ar ba nodweddion y byddai'r effeithiau i'w gweld?
ii. Sut gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?

Esboniwch isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai dirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg. Yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

i. Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?
ii. Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol a lliniaru’r effeithiau negyddol?

Esboniwch isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8:** Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig i ddirymu'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cynnig 2: egluro'r disgrifiad o adeiladau Categori C yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**

**Cwestiwn 9:** Ym mharagraffau 25 – 32 o'r ddogfen ymgynghori rydym wedi nodi ein bwriad i egluro'r disgrifiad o adeiladau 'Categori C' yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, ac wedi egluro ein sail resymegol dros wneud hyn.

A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn neu ei effeithiau posibl?

Cynhwyswch unrhyw ganlyniadau anfwriadol a/neu unrhyw oblygiadau ariannol; unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig; ac effeithiau ar y Gymraeg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma: